Cenn@d


MAI 1 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 166

# Cyngerdd Heddwch yn codi miloedd at achosion yn Gaza

Nos Sul, 14 Ebrill, cynhaliwyd Cyngerdd Heddwch yng Nghapel Bethesda, yr Wyddgrug, a chodwyd y swm anhygoel o £5,900 ar gyfer apêl Gaza a drefnir gan y mudiad Coda Ni – ac mae'r swm yn dal i godi.

Diolch arbennig i Dafydd Iwan, Garth Hewitt, Hefin Elis, y technegydd sain, a phawb yn lleol yn yr Wyddgrug ac o griw Coda Ni a roddodd yn rhad o'u doniau a'u gwasanaeth. Ond clywsom hefyd mor fawr yw'r angen. Bydd yr apêl ar agor tan ddiwedd Mai. Os hoffech gyfrannu, gallwch ddilyn y ddolen hon: [https://www.justgiving.com/page/coda-ni](https://www.justgiving.com/page/coda-ni).

Dyma luniau o'r ddau achos yn Gaza fydd yn derbyn yr arian, a bydd pob ceiniog yn cyfrif.



1) Ysbyty Al-Ahli – sy'n cael ei gynnal gan esgobaeth Jerwsalem. Fe gofiwch fod ffrwydrad enfawr wedi lladd cannoedd yma yn ôl yn niwedd Hydref a bod difrod sylweddol. Ers hynny, mae un tîm meddygol wedi dyfalbarhau i weithio mewn peryg mawr gyda 90 o welyau i gleifion. Ond bellach mae 300 o gleifion y dydd yn cael eu cyflwyno iddynt gan fod ysbytai eraill fel Al Shifa wedi eu dinistrio. Mae meddygon o'r ysbytai eraill wedi rhuthro i helpu Al-Ahli nawr, a bydd yr arian yn prynu meddyginiaethau, bwyd a dŵr.



2) Gaza Sunbirds – beicwyr sydd wedi colli coes (*amputees*), er enghraifft, ond sydd wedi ymffurfio'n dîm i ddefnyddio beiciau yn lle coesau. Maen nhw'n cymryd risg enfawr i gludo pecynnau bwyd at deuluoedd anghenus mewn ardaloedd na all lorïau eu cyrraedd. Nid yn unig y bydd yr arian o werth ymarferol mawr, ond mae hefyd yn arwydd nad ydym wedi eu hanghofio 'yng nglyn cysgod angau'.



Dafydd Iwan yw wyneb cyhoeddus y 'Gymru Newydd' ers y 1960au hyd at ymgyrch tîm pêl-droed Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd 2022. Ei gân 'Yma o Hyd' oedd cân yr ymgyrch honno, a chanodd Dafydd gyda degau o filoedd o gefnogwyr yn y stadiwm yng Nghaerdydd.




Bu Garth Hewitt yn llais Cristnogaeth radicalaidd ers y 1970au, ac mae'n un o sefydlwyr Gŵyl Roc Gristnogol Greenbelt lle bu yntau'n canu o flaen miloedd ar y prif lwyfan. Roedd Garth yn cydnabod dylanwad 'Yma o Hyd' arno yntau hefyd, a chlywyd hynny yn ei gân: 'I am Palestine' gyda'r cyfieithiad Cymraeg iddi wrth law inni gydganu:



Criw Coda Ni gyda Dafydd a Garth

Dwi yma o hyd, yma o hyd.
Fi 'di Palestina,
a dwi yma o hyd.
Goroesi wnawn, goroesi wnawn.
Fi 'di Palestina, a goroesi wnawn.

Roedd yn arbennig o addas ein bod yn gallu cynnal y cyngerdd ar nos Sul a gwneud hynny fel parhad i addoliad a myfyrdod y dydd. Cymerodd Garth at arwain yr Wylnos Heddwch yn yr Wyddgrug y prynhawn hwnnw tra oedd Dafydd ar ei ffordd o gynnal oedfaon yng ngwaelod sir Feirionnydd. Nan Powell-Davies a roddodd groeso i bawb wrth arwain y gynulleidfa mewn addoliad ar y dechrau, gan ddarllen o'r Gwynfydau a chyflwyo'r emyn 'O tyred i'n gwaredu, Iesu da' a gweddïo dros heddwch yn Gaza a'r byd.

Bu caneuon y ddau'n ysbardun inni fel Cymry i ymgyrchu dros wir heddwch ym Mhalestina. Nid atal yr ymladd yn unig, ond gweithio dros ryddid a chyfiawnder a fydd yn sail gobaith i'r dyfodol i bawb sy'n byw yn y tiroedd hyn. Roedd nodyn o edifeirwch i'w glywed yn y cyngerdd – cydnabod i ni adael y Palestiniaid mewn tlodi, caethiwed ac anobaith cyhyd, ac ymrwymiad i ymgyrchu dros gymod, heddwch a chyfiawnder fel sail i ddiogelwch. Mae angen cymorth brys, ond hefyd benderfyniad i sicrhau setliad seiliedig ar gyfiawnder y tro hwn.

Cyflwyno Medalau Gee yng Nghapel y Groes, ger Dinbych
Tudalen 2

Cyflwyno golygyddion newydd *Cristion*
Tudalen 3

Oedfaon Soarymynydd
Tudalen 4

# Cyflwyno Medalau Gee yng Nghapel y Groes, ger Dinbych



Nos Sul, 14 Ebrill, daeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd i Gapel y Groes, ger Dinbych, i oedfa arbennig pan gyflwynwyd tair medal Gee i ffyddloniaid yr Ysgol Sul yno. Braf oedd gweld cynifer o deulu'r medalwyr yn ogystal ag aelodau o'r ofalaeth gyfan wedi dod ynghyd. Arweiniwyd yr oedfa gan y Parch. Aled Davies, mewn darlleniad, gweddi a phregeth, cyn symud ymlaen yn yr ail ran i gyflwyno'r medalau. Cyflwynwyd geirda i'r tri medalydd gan Bryn Hughes Jones, blaenor yn y capel, a nododd fel a ganlyn:

**Robert Glyn Davies**: Yn enedigol o bentref Derwen, symudodd y teulu i ffermio yn ardal y Groes pan oedd Robin (Robert) yn ddwy flwydd oed. Ymaelododd y teulu yng Nghapel y Groes a bu Robin yn mynd i'r ysgol Sul er pan oedd yn blentyn bach. Bu'n arolygwr sawl gwaith ac yn athro ysgol Sul am dros ddeng mlynedd ar hugain.

Ordeiniwyd Robin yn flaenor yn 1977 a bu'n drysorydd am nifer o flynyddoedd. Bu hefyd yn weithgar yn mynd â phlant yr ysgol Sul i Dre-saith, Hafoty Siôn Llwyd ac am deithiau cerdded, er enghraifft i fyny'r Wyddfa. Ef yw athro presennol dosbarth yr oedolion, ac mae'r eglwys yma yn y Groes yn ddiolchgar iddo am ei waith caled dros y blynyddoedd.

**Margaret Elizabeth Davies**: I ysgol Sul yng Nghapel Salem, Rhuthun, yr âi Margaret yn blentyn. Wedi priodi â Robin, symudodd i fyw i bentref y Groes, ac yna i fferm Pen-y-bwlch. Ymaelododd yng Nghapel y Groes, ac ers hynny mae wedi bod yn ffyddlon a gweithgar yn yr ysgol Sul. Bu'n athrawes ar ddosbarth y plant ac yn arolygwr. Yn gogyddes heb ei hail, mae wedi bod yn gyfrifol am ddwsinau o bartïon Nadolig i'r plant a phaneidiau cymdeithasol i bawb yn y festri. Mae Margaret yn drysorydd yr ysgol Sul ers un mlynedd ar ddeg, ac mae'r eglwys yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwaith caled dros y blynyddoedd.

**Eleri Ames**: Fe aeth Eleri i'r ysgol Sul am y tro cyntaf yn blentyn yng Nghapel Clocaenog, ger Rhuthun. Yno bu'n ysgrifennydd yr Ysgol Sul ac yn gyfeilydd ar yr organ. Wedi priodi â Henry symudodd i fyw i Ruthun ac ymaelodi yng Nghapel Bethania. Symudodd y teulu i ffermio ym mhentref y Groes ac ymaelodi yng Nghapel y Groes. Yma mae Eleri wedi bod yn ffyddlon i'r ysgol Sul ac wedi dal nifer o swyddi, gan gynnwys arolygwr ac athrawes ar ddosbarth o blant, a bu'n gyfeilydd rheolaidd. Symudodd Eleri a'r teulu i fferm fwy yn Ninbych, ond mae'n parhau i fod yn aelod ffyddlon yma yn y Groes. Mae'r eglwys yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwaith a'i ffyddlondeb.

Cyflwynwyd y medalau iddynt gan Aled Davies ar ran Cyngor yr Ysgolion Sul a'r teulu Gee. Wedi'r oedfa, braf oedd cael croesi'r ffordd i neuadd y pentref, lle roedd lluniaeth wedi ei baratoi gan selogion yr eglwys.

# CERDDED! Cymru a Zimbabwe: Taith yn Llansteffan i staff Undeb Bedyddwyr Cymru

Rydyn ni fel eglwysi'r Bedyddwyr fis i mewn i'r her CERDDED, sydd yn para o fis Mawrth hyd fis Hydref eleni.

Mae 141 milltir bellach wedi eu cyflawni neu eu haddo dros y misoedd nesaf – diolch o galon i bawb sydd wedi cofrestru hyd yn hyn!

Aeth staff y Llwyfan ar eu hail daith fel tîm staff yr wythnos hon! Y tro hwn, aethant ar daith o amgylch ardal Llansteffan, ger Caerfyrddin, fel criw o chwech. Roedd yn ddiwrnod arbennig, a chawsant amser hyfryd wrth iddynt uno'u camau gyda chymunedau yn Zimbabwe.

Tybed allech chi gerdded ychydig filltiroedd mewn man arbennig i'n helpu ni i gyrraedd ein targed milltiroedd? Mae croeso i chi fel unigolyn, eglwys, neu grŵp cymunedol ymrwymo i gerdded ychydig filltiroedd gyda ni wrth i ni anelu i gerdded 750+ o filltiroedd (hyd Cymru a Zimbabwe) gyda'n gilydd. Am fwy o wybodaeth: CERDDED! Cymru a Zimbabwe - The Baptist Union of Wales (ubc.cymru)



# Cyflwyno golygyddion newydd *Cristion*

Mae'r tri ohonom yn edrych ymlaen yn fawr at y sialens newydd yma. Canolbwynt y tair blynedd nesaf fydd y gwaith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad.

**Ffydd bob dydd**

Y gobaith yw y bydd yna bwyslais ar y bobl sy'n cadw ein capeli a'n heglwysi ar agor – y bobl a'r cymunedau sy'n dangos bod ffydd ar waith, o'r plant bach i'r henoed. Ac er ein bod yn gweld llawer o eglwysi erbyn hyn yn mynd yn fach neu'n cau yn gyfan gwbl, rydym am roi sylw arbennig i'r gwaith da sy'n digwydd a'r dystiolaeth sy'n cael ei rhannu dros Gymru.

Gadewch i ni gyflwyno ein hunain:

**Y Parchedig Heulwen Anne Evans**

Hoffwn yn gyntaf ddiolch am y fraint a'r cyfle i fod yn rhan o'r cylchgrawn hollbwysig yma. Mae'n siawns i ledaenu gair, llawenydd a thangnefedd Crist trwy weddi, astudiaeth o'r ysgrythur, ac yn gyfle i ddod i adnabod pobl ar eu taith – taith ysbrydol a/neu greadigol.

Rwyf yn wreiddiol o Langyndeyrn, wedi cael fy magu ar fferm odro. Symudais i Fangor i wneud gradd a gradd meistr yn y gyfraith. Ymhen amser teimlais yr alwad i fynd yn offeiriad, ac felly i ffwrdd â mi i Fryste am hyfforddiant a gwneud gradd mewn Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth. Rwyf yn awr yn offeiriad â gofal chwe eglwys yn Ardal Weinidogaethol Leol Dyffryn Teifi ac yn byw yng Nghastellnewydd Emlyn. Mae'n anrhydedd ac yn fraint i fod yn rhan o gymuned mor gefnogol a chyfeillgar!

Edrychaf ymlaen yn nawr am bennod fach newydd, i weithio gyda Sian Elin ac Eurfyl i barhau i godi ymwybyddiaeth o'r cylchgrawn. Gobeithiaf dynnu sylw at bwysigrwydd ffydd bob dydd yn ogystal â rhoi'r cyfle i bobl o bob cefndir ac oedran i gyfrannu a rhannu eu taith bersonol â ni.

Mae darllen hanes a chlywed storïau gan bobl am eu profiadau yn anogaeth fawr ac yn rhywbeth pwysig iawn i'w wneud. Sut arall allwn ni dyfu a datblygu ein perthynas â'n gilydd a gyda Duw? Felly, trwy'r cylchgrawn hwn cawn y siawns i ddod â storiâu di-rif, profiadau, hanesion, astudiaethau, gweddïau, ac enwi ychydig yn unig, i chi fwynhau a myfyrio arnynt. A phwy a ŵyr, efallai y bydd un darn yn eich annog i ysgrifennu a rhannu profiad eich hun â ni!

Gobeithio eich bod yn barod am y daith gyffrous hon.

Pob bendith a llawenydd ar eich taith ffydd.

**Eurfyl Lewis**

Mae'n wir yn fraint ac yn anrhydedd i gael cyfle i gydolygu'r cylchgrawn *Cristion*.

Cefais fy ngeni i gartref Cristnogol yn Login yn 1962. Roedd fy nhad, y diweddar Iwan Lewis, yn bregethwr lleyg, ac mae fy mam, Mefin Lewis, wedi bod yn weithgar yn y capel a'r fro erioed. Mae gennyf un brawd, sef Tudur, a dwy chwaer, sef Glesni a Ceirios, sydd i gyd yn byw yn lleol.

Priodais ferch o Fynachlog-ddu, sef Jill, yn 1989 ac rydym wedi ymgartrefu yn Llanglydwen ers blynyddoedd bellach. Mae gennym dri o blant – Ifan, Elen a Tomos, ac un ŵyr bach blwydd oed – Twm Elias.

Mynychais Ysgol Gynradd Ffynnon-wen, Login, a chefais fy addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Hendy-gwyn ar Daf, cyn mynd i weithio i Fanc Lloyds yn 1979, yn Hwlffordd a Phenfro. Yn dilyn hyn, cefais swydd gyda'r Urdd yn Sir Benfro yn 1991, lle bues i'n gweithio am naw mlynedd ar hugain, cyn derbyn diswyddiad gwirfoddol, yn ystod cyfnod dieflyg Covid, bedair mlynedd 'nôl.

Rwyf wedi mynychu Capel Calfaria, Login, er pan oeddwn yn blentyn, gan fynychu'r ysgol Sul a'r oedfaon yn gyson. Cefais fy medyddio yn 1978 a'm penodi'n drysorydd a diacon yn 1990 – swydd y gwnes i ei chyflawni tan 2004. Yn 2010 ces i fy mhenodi'n ysgrifennydd y capel, ac rwy'n dal i wneud hyn.

Rwy'n perthyn ac yn swyddog ar nifer o fudiadau eraill, gan gynnwys:

- cadeirydd, golygydd a dosbarthwr papur bro *Y Cardi Bach*
- cadeirydd Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda
- cadeirydd Gŵyl Rhinwedd a Moes
- ysgrifennydd Hoelion Wyth Beca a chyn-gadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth
- llywodraethwr Ysgol Caer Elen, Hwlffordd.

Rwyf wedi cymryd rhan mewn nifer o deithiau beicio a theithiau cerdded noddedig tuag at wahanol elusennau, ac wedi codi miloedd o bunnoedd dros y blynyddoedd. Mae gennyf lawer o ddiddordebau, gan gynnwys cerdded, yn enwedig dros fynyddoedd y Preseli a llwybr arfordir Sir Benfro. Rwy'n mwynhau mynd â'r garafán i'r Eisteddfod Genedlaethol – ac i lawr i Drefdraeth, pan mae'r tywydd yn braf.

**Y Parchedig Sian Elin Thomas**

Ble i ddechrau?

Mae'n rhyfedd meddwl fy mod i, Sian Elin, yn cael y cyfle i ysgrifennu pwt bach am fy hunan wrth ddod yn rhan o dîm golygyddol newydd *Cristion* gyda Heulwen ac Eurfyl.



Mae gen i ddigon i'w ddweud fel arfer, ond pan mae'r cyfle'n dod i eistedd ac ysgrifennu darn bach fel hyn am fy hunan, mae'n anodd. Yn syml, dw i'n Weinidog ar gapeli hyfryd dros ben yng ngorllewin Cymru, mewn gofalaeth o'r enw Bro Cemaes Dyffryn Teifi, gyda chaplaniaeth Cartref Gofal y Bedyddwyr, Glyn Nest, yn rhan bwysig ohoni hefyd.

Dw i wedi gweithio'n galed i gyrraedd y man a'r lle dw i ynddo nawr. Ond, wrth reswm, mae'r gwaith caled wedi bod yn waith tîm. Mae gen i ŵr cefnogol tu hwnt o'r enw Dylan sydd wedi dod, erbyn hyn, yn rhan bwysig o fy ngweinidogaeth. Ac mae gen i ddau fab ffabiwlys, Iwan a Steffan, sydd yn barod i helpu fel sydd angen.

Fe wnes i dderbyn fy hyfforddiant gyda'r Coleg Gwyn, Bangor, a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd, gyda sawl tiwtor dylanwadol iawn – y Parchg Ddr Densil Morgan a'r Parchg Ddr Rosa Hunt, ac enwi dim ond dau. Diolchaf hefyd i'r Parchedig Beti Wyn James am adael i fi fod yn niwsans wrth dderbyn rhan o fy hyfforddiant o dan ei hadain, ac mae hi'n parhau i fod yn gefn mawr i fi hyd heddi.

Dw i'n angerddol bod llaw Duw ym mhopeth sydd wedi digwydd i mi. Mae sawl cam oedd ddim yn golygu llawer ar y pryd, efallai, fel siarad cyhoeddus yn y Clwb Ffermwyr Ifanc, gweithio yn siop sglods yn Aberteifi, bod yn gynorthwywraig ysgol gynradd a.y.y.b. yn sicr wedi fy siapio mewn i'r gweinidog yr wyf yn awr. Ond dw i'n sicr bod Duw wedi bod yn rhan o'r pictiwr o'r dechrau oll i mi fel merch ifanc ym mhentref Boncath, Sir Benfro.

Felly, dyma ni, Heulwen, Eurfyl a Sian Elin.

Diolchwn i Dduw am y cyfle hwn, a byddwn yn gweithio'n ddiflino dros y tair blynedd nesaf i wneud yn siŵr bod *Cristion* yn parhau'n gylchgrawn llawn angerdd dros y gwaith arbennig sy'n digwydd dros Gymru yn enw ein Harglwydd Iesu.

Diolch i Carwyn, Dylan a Nerys am eu holl waith dros y tair blynedd diwethaf, ac i'r holl olygyddion dros y blynyddoedd.

Yn sicr mae yna sgidiau mawr i'w llenwi!

Pob bendith arnoch i chi i gyd.

Am ragor o fanylion ac i danysgrifio ewch i Cristion.net

# Oedfaon Soarymynydd

Mae'r flwyddyn 2024 yn mynd yn ei blaen yn gyflym ac mae Mai 12fed ar fin cyrraedd. Dyma'r dyddiad arbennig pan fydd y capel yn ailagor unwaith eto. Rydym yn gwir edrych ymlaen at groesawu Delyth Morgans Phillips, Talsarn, i ddechrau'r oedfaon ym mhulpud Soarymynydd. Bydd yna groeso mawr i bawb i'r capel bach ar lan afon Camddwr ym mryniau Elenydd.

*Lynwen Hughes*






## Soarymynydd 2024
### Oedfaon am 2 o'r gloch

| | |
|---|---|
| Mai 12fed | Delyth Morgans Phillips, Talsarn |
| Mai 19eg | Parch. Ieuan Elfryn Jones, Bangor |
| Mai 26ain | Parch. Gwyn Elfyn Jones, Pontyberem |
| Mehefin 2ail | Y Prifardd Tudur Dylan Jones, Caerfyrddin |
| Mehefin 9fed | Parch. Roger Ellis Humphreys, Bronant |
| Mehefin 16eg | Parch. Ian Sims, Llandeilo Fawr |
| Mehefin 23ain | Parch. Beti Wyn James, Caerfyrddin |
| Mehefin 30ain | Parch. Emyr Gwyn Evans, Tymbl |
| Gorffennaf 7fed | Beti Griffiths, Llanilar |
| Gorffennaf 14eg | Huw Roderick, Llanilar |
| Gorffennaf 21ain | Parch. Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog |
| Gorffennaf 28ain | Lyn Ebenezer, Pontrhydfendigaid |
| Awst 4ydd | Parch. Carwyn Arthur, Tregaron |
| Awst 11eg | Cliff Williams, Cei Bach |
| Awst 18fed | Parch. Aled Lewis, Pontrhydfendigaid |
| Awst 25ain | Parch Carys-Ann, Penrhiw-pâl |
| Medi 1af | Parch. Gwilym Wyn Roberts, Caerdydd |
| Medi 8fed | Parch. John Roberts, Aberystwyth |
| Medi 15fed | Parch. Sian Elin Thomas, Llandysul |
| Medi 22ain | Parch. Wyn Thomas, Brondeifi, Llambed |
| Medi 29ain | Parch. Richard Lewis, Bow Street |
| Hydref 6ed | **Cwrdd Diolchgarwch**<br>Parch. Canon Aled Williams, Llanllwni |

# Nye gyda Michael Sheen




Ar hyn o bryd mae'r National Theatre yn llwyfannu'r ddrama *Nye* gan Tim Price yn y Theatr Genedlaethol ar lan afon Tafwys yn Llundain gyda Michael Sheen, yr actor o Bort Talbot, yn chwarae rhan y prif gymeriad, Aneurin Bevan. Nos Fawrth, 23 Ebrill, rhoddwyd cyfle i bobl o bob rhan o wledydd Prydain i ymuno â'r gynulleidfa yn Llundain mewn darllediad llif byw ar eu sgrin fawr leol.

O'i wely mewn ysbyty, daw atgofion i Nye o wahanol gyfnodau yn ei fywyd – o'i blentyndod, gweithio dan ddaear, dechrau ymhél â gwleidyddiaeth leol i'w fywyd yn y Senedd a sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd. Mae'r ddrama'n llawn darluniau byw, dwys a doniol, o sut y bu i brofiadau bywyd ffurfio cymeriad cadarn y dyn unigryw hwn. Gwelir hefyd ei benderfyniad i wireddu ei weledigaeth o sicrhau fod pawb, beth bynnag ei gefndir, yn gallu cael mynediad at ofal iechyd yn rhad ac am ddim.

Bydd y cynhyrchiad yn dod i Ganolfan y Mileniwm Caerdydd o 18 Mai tan 1 Mehefin, a bydd darllediadau pellach mewn rhai sinemâu lleol yn ogystal.

# D. Ben Rees, *Aneurin Bevan: the Creator of the National Health Service*

Mae'r awdur yn un o'n cofianwyr gwleidyddol amlycaf a mwyaf cynhyrchiol, ac mae eisoes wedi cyhoeddi cyfrolau sylweddol ar nifer o wleidyddion unigol gan gynnwys William Abraham ('Mabon'), ynghyd â ffigyrau mwy cyfoes fel Jim Griffiths, Cledwyn Hughes a Gwilym Prys-Davies, pob un ohonynt yn ffrindiau personol iddo. Yn 2021 cyhoeddodd gofiant arloesol i Aneurin Bevan yn Gymraeg (Cyhoeddiadau Modern Cymreig), astudiaeth a dderbyniodd groeso cynnes dros ben. Prif ffocws y gyfrol oedd rôl Bevan fel prif sylfaenydd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 1948 a'r rhwystrau bygythiol niferus y bu'n rhaid iddo'u datrys.

Addasiad o'r gyfrol Gymraeg yw'r gyfrol bresennol, a chyhoeddwyd y ddwy gyfrol gan Gwmni Cyhoeddiadau Modern Cymreig, gwasg a sefydlwyd gan yr awdur ei hun yn y flwyddyn 1963. Dros y blynyddoedd bu'r wasg uchelgeisiol hon yn gyfrifol am gyhoeddi nifer sylweddol o weithiau pwysig yn y ddwy iaith. Ac yn wahanol iawn i gofianwyr eraill Nye Bevan, mae Ben Rees wedi meistroli'n llwyr bwysigrwydd cefndir a blynyddoedd cynnar Bevan o fewn Cymru.


Mae un o'r penodau mwyaf gafaelgar o fewn y gyfrol hon yn rhoi sylw i berthynas Aneurin Bevan a Chymru. Amwys ar y naw oedd agwedd Bevan tuag at faterion Cymreig ar hyd yr amser ac ychydig iawn o feistrolaeth oedd ganddo ar yr iaith Gymraeg. Ond llwyddodd i liniaru ar ei agwedd yn ystod y 1950au, ac yn raddol bach daeth i gefnogi polisi ei blaid ynghylch penodi Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ym 1958–9. Ac o fewn y gyfrol hon mae Graham James, un a anwyd yng Nglynebwy ym 1938, wedi cyfrannu traethawd reit ddifyr yn trafod pwysigrwydd tymor hir tref ei enedigaeth i Bevan drwy gydol ei yrfa.

Yr her bennaf sy'n wynebu unrhyw gofiannydd i Bevan yw'r ffaith nad oes unrhyw archif gyfansawdd o'i bapurau gwleidyddol a phersonol ar gael yn unman (er y ceir archif o bapurau gwleidyddol Jennie Lee yng ngofal y Brifysgol Agored). Hefyd, ychydig iawn o lythyrau a luniwyd ganddo sydd wedi goroesi. Ond aeth yr awdur ati i ymchwilio'n drwyadl ymhlith nifer o archifau, yn fwyaf arbennig ddaliadau cyfoethog yr Archif Wleidyddol Gymreig yn Aberystwyth, yn ogystal â nifer fawr o bapurau newydd y cyfnod, gan feistroli'n llwyr yr holl lyfrau ac erthyglau academaidd perthnasol i'w dasg. Y canlyniad yw cyfrol gynhwysfawr ac eithriadol o ddifyr a luniwyd mewn arddull ysgafn ei naws.

Rhoddir sylw arbennig gan yr awdur i fagwraeth Aneurin Bevan a'i addysg ysgol gynradd yng Nglynebwy, ei brofiadau ffurfiannol yn y pwll glo ac ym myd gwleidyddol ei ardal. Y profiadau hyn a arweiniodd at ei ddewis gyda brwdfrydedd fel yr ymgeisydd Llafur ar gyfer etholaeth Glynebwy, i ddilyn Evan Davies, AS lled anobeithiol, ym 1928. Etholwyd ef i'r senedd ar 30 Mai 1929 – digwyddiad sy'n cael sylw llawn yn y cofiant hwn. Daliodd i gynrychioli'r sedd hon ar hyd y blynyddoedd hyd nes iddo farw'n gynamserol o gancr ym 1960.

O'r diwrnod cyntaf oll yn San Steffan, daeth Nye Bevan i'r amlwg fel rebel â'r potensial i wrthryfela'n gyson o'r meinciau cefn – 'eicon y chwith yn San Steffan', a'r mwyaf huawdl o siaradwyr cyhoeddus o'r dechrau. O ystyried ei gefndir a'i ddiffyg profiad fel gweinidog neu mewn gwaith swyddogol, ac eithrio o fewn ei ardal enedigol yn Nhredegar, mae Ben Rees yn tanlinellu'r pwynt ei fod yn rhywbeth rhyfeddol i Clement Attlee, y Prif Weinidog Llafur, gynnig dwy swydd iddo. Cafodd Nye Bevan y cyfrifoldeb dros Iechyd a Thai ym 1945 – swyddi oedd yn llawn potensial am wenwyn ac yn her anferth i'r deilydd.

Mae'r bennod fwyaf sylweddol o fewn y gyfrol yn briodol iawn yn rhoi sylw i'r llu rhwystrau gwleidyddol astrus y bu'n rhaid i'r gweinidog newydd eu hwynebu wrth sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a cheisio sicrhau y byddai'n cael ei dderbyn wrth iddo ehangu ar garlam. Llawn mor arwyddocaol oedd ei lwyddiant yn trefnu i adeiladu nifer fawr iawn o dai newydd, y mwyafrif ar gyfer y dosbarth gweithiol. Roedd eu hangen yn ddirfawr yng Nghymru. Yn dilyn cwymp ail lywodraeth Attlee ym




1951, daeth Bevan i'r brig fel arweinydd carfan sylweddol o Aelodau Seneddol Llafur ar yr asgell chwith – y 'Bevanites'. Roeddent yn fythol barod i greu stŵr ac i herio arweinyddiaeth Hugh Gaitskell, a dueddai i fod braidd yn betrusgar. Drwy gydol yr astudiaeth ceir llawer iawn o ddeunydd diddorol ynghylch gwleidyddion cyfoes eraill fel Clement Attlee, Michael Foot, Ernest Bevin a Hugh Gaitskell.

Rhoddir ystyriaeth lawn yma hefyd i fywyd personol Nye Bevan, yn fwyaf arbennig ei briodas â Jennie Lee, hithau hefyd wedi ei hethol i'r Senedd ym mis Mai 1929 – fel AS Llafur etholaeth Gogledd Swydd Lanark. Priodwyd y ddau, yn lled gyfrinachol, ym mis Hydref 1934, a pharhaodd y berthynas ar ffurf priodas agored, er gwaethaf llu o anawsterau, hyd at farwolaeth gynamserol Bevan. Roedd amryw yn barod i'w beirniadu am fyw bywyd sosialaeth siampaen. Ceir deunydd diddorol yma hefyd am brofiadau difyr y ddau fel ffermwyr yn ennill eu plwyf yn Chesham.


Llwyddwyd i gynhyrchu cyfrol sy'n bleser i'w thrin a'i thrafod – clod mawr i Gyhoeddiadau Modern Cymreig, ac mae'n cynnwys nifer fawr o ffotograffau hyfryd, amryw ohonynt o wleidyddion eraill y cyfnod.

*J. Graham Jones*

# *Gair Duw ar Waith*

## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 23**
**Pontio'r cenedlaethau**

**'etifeddiaeth oddi wrth yr Arglwydd yw meibion' (Salm 127)**

### Gweddi

Diolch, Arglwydd, am brofiad ac argyhoeddiad y Salmydd, a ganodd am fyw mewn tŷ o waith dy ddwylo ac am werthfawrogi teulu a fendithiaist. Helpa ni i weld y ffordd ymlaen mewn byd sydd mor wahanol i fyd y Salmydd, ac i ddarganfod o'r newydd waith dy law yn ein bywydau. Amen.

### Cyflwyniad

Gwelwn fod hel achau yn bwysig i'r Iddew a'i fod yn medru adrodd ei linach yn rhwydd. Ond prin yw'r testunau Beiblaidd sy'n cynnig arweiniad ar natur teulu, mwy na bod yr endid o deulu yn perthyn i fyd Iddewig. Nid oes modd i'r Ysgrythur daflu goleuni ymarferol ar yr heriau cymdeithasol sy'n perthyn i'r oes ddigidol, gyfalafol a thrawsddiwylliannol hon. Cyfeirir at yr unedau teuluol neu lwythol yn y cyfnodau Beiblaidd, ac mae'n anodd codi o'r cyd-destunau hynny unrhyw beth sy'n fwy na delfrydiaeth y dyddiau yn eu cyfnodau. Yn y salm a nodir clywn yr Iddew yn datgan mai'r Arglwydd sy'n adeiladu popeth, gan gynnwys teulu. Cwyd sefyllfaoedd gwahanol ym mhob cyfnod a diwylliant. Felly, rhaid i'r eglwysi ddarganfod ffyrdd o fod yn ymarferol ac yn adeiladol, gan gadw at yr egwyddorion sylfaenol sydd yn nysgeidiaeth Iesu.

Mewn eglwys o bobl oedrannus yn Coalsville, swydd Caerlŷr, cydnabu'r aelodau na fu ganddynt blentyn mewn oedfaon ers blynyddoedd, ac roedd y darlun yn edrych yn dywyll. Yn agos at eu capel roedd Ysgol yr Holl Saint (All Saints Primary School), a gwahoddwyd plant hynaf yr ysgol gynradd hon i ddod i mewn a rhannu eu profiadau â'r aelodau. Darparwyd diodydd a bisgedi i bawb a threfnu themâu i'r cyfarfodydd hyn. Dechreuwyd drwy gymharu addysg yng nghyfnod plentyndod y gynulleidfa oedrannus â phrofiadau'r plant, oedd rhwng 10 a 12 oed. Cafwyd sesiwn buddiol a threfnwyd cyfarfod eto yn sôn am ddillad y ddau gyfnod, fel bod y ddwy haen o'r un gymuned yn dod i adnabod ei gilydd yn well. Cytunwyd i chwilio am enw i'r gyfeillach hon, a chytunwyd ar EAST, sef Ebenezer and All Saints Together.

### Myfyrdod

Un o nodweddion cymdeithasol ein cyfnod yw gweld teuluoedd yn ymrannu yn dilyn ysgariad rhwng gŵr a gwraig. Beth bynnag fyddo'n llywio'r profiad hwnnw, a sut bynnag y bydd pobl yn ystyried y ffactorau sy'n arwain at y gwahanu, prin fod unrhyw un am ddadlau o blaid y profiad sy'n effeithio ar lawer mwy na'r ddau a fu'n briod. Pan fydd plant yn y canol, mae unrhyw ysgariad yn sicr o effeithio arnynt, ac yn yr un modd bydd y teulu estynedig yn gorfod addasu. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen cymorth i warchod plant a'r amgylchiadau'n anodd.

Sefyllfa wahanol ond un sy'n codi problemau newydd yw un pan fydd teulu ifanc wedi symud i ffwrdd i weithio ac nad oes gan y plant gyswllt naturiol â'r genhedlaeth sydd wedi ymddeol. Bydd yr henoed yn colli cwmnïaeth eu hwyrion, a'r wyrion hwythau heb afael ar y gwreiddiau y byddent yn eu profi pe bai pawb yn yr un gymdogaeth. Byd felly yw ein byd ni.

Bydd cyfle gan yr eglwys leol, sydd o bosibl heb weithgareddau i'r ifanc yn eu plith, i estyn allan a chynnig cwmnïaeth fel yn hanes clwb EAST yn Coalsville. Nid nod amlycaf y clwb yw ailsefydlu gweithgaredd tebyg i ysgol Sul, ond yn hytrach hau had cwmnïaeth ac adnabyddiaeth real. Unwaith y daw'r berthynas rhwng y cenedlaethau'n gadarnach, daw pob math o bosibiliadau yn amlwg. Aeth cymaint o ardaloedd yn boblogaeth ddigyswllt, a doluriau unigolyddiaeth yn rhemp.

### Gweddi

Diolchwn am deuluoedd sy'n plethu pobl ynghyd ac wedi ymwreiddio mewn cymdeithas sefydlog. Gweddïwn dros y sawl sydd wedi gadael y gymuned ddiogel honno ac yn chwilio am wreiddiau newydd. Boed i brofiad yr henoed a'r ifanc yn Coalsville fod yn symbyliad i eglwysi mewn ardaloedd eraill ddarganfod eu cyfle i wasanaethu cymuned a bod yn dystion Crist ac yn genhadon hedd. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Mae'r salmydd yn dweud bod unrhyw beth nad yw o fwriad Duw yn ofer. Ydych chi'n cytuno?
2. A fyddwch yn gweld eich amgylchiadau fel rhan o ewyllys Duw ai peidio?
3. Pan fydd teuluoedd ifanc wedi symud i ardal ddieithr, ymhell oddi cartref, a'u rhieni yn methu gwarchod, a fyddech yn medru cynnig Clwb Plant yn eich capel/cartref i helpu?
4. Mae modd i drigolion ein byd cyfalafol ni deithio'n rhwydd, a byw mewn ardaloedd a gwledydd eraill yn hawdd. Ond a oes perygl i'r endid teuluol ddioddef?

BBC radio cymru


***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 5 Mai, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Arfon Haines Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 5 Mai, am 12yp**
Oedfa dan ofal Dylan Rhys Parry, Pen-y-bont ar Ogwr

# Rico Tice ac Eglwys Loegr

Yn ddiweddar mae Rico Tice wedi gadael Eglwys Loegr, ac mae bellach yn addoli gydag eglwys Bresbyteraidd yn Llundain. Mae Rico yn adnabyddus fel cyd-awdur y cwrs efengylu 'Darganfod Cristnogaeth' (Christianity Explored) a ddatblygwyd gan eglwys All Souls Llundain. Erbyn hyn, mae pedwar cwrs yn dod o dan ymbarél 'Darganfod Cristnogaeth', a'r tri arall yw 'Hope Explored', 'Life Explored' a 'Discipleship Explored'. Mae'r cyrsiau wedi eu cyfieithu i nifer o ieithoedd ac maen nhw wedi cael eu defnyddio mewn nifer o wledydd ar draws y byd.






Roedd Tice ymhlith chwe arweinydd o grwpiau 'para-eglwys' Efengylaidd a ysgrifennodd at Archesgob Caergaint fis Hydref diwethaf yn mynegi gofid a phryder am ogwydd yr Eglwys yn Lloegr (fel yng Nghymru) tuag at gadarnhau priodas dau o'r un rhyw a'r llyfr newydd *Gweddïau o Gariad a Ffydd*, cyfrol o ganllawiau gwasanaeth ar gyfer 'cyfamod cyfeillgarwch' rhwng pâr cyfunrywiol.

Roedd y llythyr yn galw ar yr Archesgob, ac arweinwyr Eglwys Loegr, i ymwrthod â dylanwad gwerthoedd diwylliannol y byd seciwlar pan maen nhw'n groes i rai'r Beibl. Mae'r Ysgrythur yn rhestru cyfunrywiaeth fel pechod ymhlith pechodau eraill. Gwaetha'r modd, ni chafwyd ateb o sylwedd.

Mewn cyfweliad, gofynnwyd i Rico Tice a fyddai fyth yn ailymuno ag Eglwys Loegr. Dywedodd nad oedd wedi gadael Anglicaniaeth mewn un ystyr. Mae'n dal i lynu wrth 39 erthygl cred yr eglwys ac yn hapus i ymrwymo i fodel y De Global o Anglicaniaeth. Dywedodd fod diwylliant presennol yr Eglwys yn dorcalonnus, wrth weld gwadu clir a threiddiol o'r angen i bob Cristion edifarhau am bob un pechod y mae'n ei gyflawni, yn ôl diffiniad yr Ysgrythur o bechod.


Roedd darllen am hyn yn peri tristwch, ac yn dangos sut y mae gwyro oddi wrth ddysgeidiaeth y Beibl yn siŵr o rwygo eglwysi. Mae rhwygo oddi wrth Air Duw yn rhwym o greu rhwygiadau pellach.

*John Treharne*

## Cofio John Elias

Ym mis Mai eleni bydd hi'n 250 mynedd ers geni'r pregethwr enwog John Elias. I nodi hynny, bydd arddangosfa'n amlinellu ei yrfa'n cael ei chynnal yng Nghanolfan Glanhwfa Hwb Cymunedol, Llangefni, rhwng 1 a 31 Mai. Bydd yr arddangosfa ar agor rhwng 9 a 4 o'r gloch o ddydd Mawrth tan ddydd Gwener.

Mae hynny'n briodol am fod Capel Moreia (lleoliad y Ganolfan) yn cael ei adnabod fel Capel Coffa John Elias. Bydd yr Athro Dr Densil Morgan yn traddodi darlith ar John Elias nos Fercher, 8 Mai, am 7yh, hefyd yn y Ganolfan.



# Myfyrdod

## O'r Pasg at y Pentecost – diwedd yr Efengylau ond dechrau'r dilyn

**Darlleniadau**
Marc 16:1–8; Mathew 28:18–20; Luc 24:44–52; Ioan 20:24–31

Mae'r Efengylau'n allweddol yn hanes y dweud am Iesu: Paul yn gyntaf ac yna'r Efengylau – ffydd yn Iesu yn dod o flaen y stori am Iesu. Yn y diwedd, nid adrodd y stori oedd amcan yr Efengylwyr ond herio dilynwyr newydd Iesu yn eu hoes ac ymhob oes i ganfod pwy yw Iesu. O ganfod, credu, ac o gredu, dilyn – hyd y diwedd a thu hwnt i'r diwedd.

'yr oedd ofn arnynt' (Marc 16.8)

**Diwedd Marc: y dychryn a'r dilyn**
'Y mae'n gadael diwedd stori Iesu yn benagored ac mae'n mynnu penderfyniad gan y darllenydd. Mae fel petai Marc yn dweud wrth rai oedd eisoes yn gwybod y stori: "Ewch 'nôl a darllenwch stori Iesu, yr athro gwych a'r iachäwr rhyfeddol eto i ddarganfod yr un a ddioddefodd ond sy'n 'nawr wedi gorchfygu – y Meseia, Mab Duw.' (John R. Donahue a Daniel J. Harrington, *The Gospel of Mark*)

Mae 'braw ac ofn' diwedd stori Marc yn dod â ni wyneb yn wyneb â rhyfeddod Duw yn Iesu. 'Nawr byddwch yn deall geiriau cychwynnol Efengyl Marc: 'Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw'.

'Rhoddwyd i mi bob awdurdod … Ewch gan hynny … Gwnewch ddisgyblion … Bedyddiwch … Dysgwch … A byddaf gyda chwi' (Mathew 28:16-20)

**Diwedd Mathew: y gorchymyn a'r gras**
Gwelai Mathew Iesu fel rhyw ail Foses yn arwain pobl Dduw allan o anialwch a chaethiwed i ryddid a gwaredigaeth newydd drwy ei groes a'i atgyfodiad. Mae'n dathlu'r cyfan y mae bywyd a gwaith, geiriau a gwyrthiau, croes ac atgyfodiad Iesu yn ei olygu i'r darllenwyr ac i ddisgyblion Iesu ar draws yr oesau: 'bob awdurdod yn y nefoedd ac ar y ddaear'; 'ewch … i'r holl genhedloedd'; 'eu dysgu am yr holl orchmynion (a chyfraith cariad yn sail a sylfaen y cyfan)'; 'gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser'.

'Mae uchafbwynt a choron Efengyl Mathew yn rhyfeddol o briodol gan ei fod yn gwahodd y darllenydd i fod yn rhan o'r stori [mewn diweddglo sy'n] benagored. Y mae i Iesu arwyddocâd ym mhob oes a phob gwlad, ac mae bob amser gyda'i bobl … Yr Iesu sy'n gorchymyn ufudd-dod anodd yw'r un sydd hefyd yn bresenoldeb grasol dwyfol gwastadol.' (Dale Allison and W. D. Davies, *Matthew*)

'Wrth iddo'u bendithio, fe ymadawodd â hwy ac fe'i dygwyd i fyny i'r nef. Wedi iddynt ei addoli ar eu gliniau, dychwelsant yn llawen iawn i Jerusalem.' (Luc 24:52)

**Diwedd Efengyl Luc: yr esgyn a'r emyn, y genhadaeth a'r grymuso**
Yn yr Efengylau dim ond Luc sy'n sôn am yr esgyniad, hanes sy'n cael ei ailadrodd yn llawnach yn ail gyfrol Luc, Actau'r Apostolion.

Mae'n agor yr Ysgrythurau iddynt. Mae'n cyhoeddi natur y genhadaeth: edifeirwch a maddeuant yn ei enw i'r holl genhedloedd. Nhw yw'r tystion i'r pethau hyn. A chânt nerth yr Ysbryd Glân, nid fel elfen mewn credo ffydd ond fel grym ar waith. Wrth eu gadael y mae'n eu bendithio. O hyn allan maen nhw a ninnau yn byw dan fendith rymus, nerthol a grasol yr un a groeshoeliwyd drosom ac a gyfodwyd. O hyn allan byddent hwy, fel ninnau, yn byw mewn llawenydd. O hyn allan byddent hwy, fel ninnau, yn dystion i'r pethau hyn, yn Llyfr yr Actau ac yng nghroniclau cenhadaeth yr oesau. Mae stori'r Efengyl yn gorffen gydag emyn mewn teml ond mae'r emyn, fel yn ein hanes ni, gobeithio, yn troi'n ysgogiad ac yn ysbrydoliaeth.

'Cofio hyn sy'n ennyn rhyfeddod a diolch ac addoliad … Nid achos Iesu yn unig a oroesodd; roedd ef yn fyw, wedi trechu angau, ac yn Arglwydd y greadigaeth; addolasant ef. Er gwaethaf y bygwth a'r brwydro ar hyd y daith … "dychwelsant i Jerwsalem". Fe droes yr union fan a fu'n destun arswyd gydol y daith yn fan cychwyn cenhadaeth a ddygai fendith i'r byd. Fe orffennodd Luc ei Efengyl, fel y dechreuodd hi, gyda phobl yn cyfranogi o lawenydd y nef, gan fendithio Duw am Iesu, drwy'r Ysbryd Glân: "gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith pobl sydd wrth ei fodd".' (Saunders Davies, *Y Daith Anorfod: Efengyl Luc*)

'Y mae'r rhain wedi eu cofnodi er mwyn i chwi gredu (a dal i gredu) mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi trwy gredu gael bywyd yn ei enw ef.' (Ioan 20:31)

**Diwedd Ioan: y Gair yn gnawd, o'r geiriau i'r credu, o'r credu i'r bywyd**
Mae Ioan yn cymell y darllenwyr i edrych yn ôl dros y stori: y Gair yn gnawd; Iesu, bara'r bywyd; Iesu, goleuni'r byd; Iesu, y bugail da; Iesu, yr atgyfodiad a'r bywyd. Hefyd, Iesu, y wir winwydden; Iesu, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd; Iesu a groeshoeliwyd; Iesu a gyfodwyd; Iesu sy'n tynnu pawb ato ef ei hun; Iesu sy'n caru'r byd cyfan hyd y diwedd.

Edrychwch 'nôl dros hyn i gyd. Cofiwch hyn i gyd. Gadewch i hyn oll hydreiddio eich byw a'ch bod. Gadewch i hyn ennyn credu cadarnach. A phan fydd her y dyddiau yn drech na chi ac yn bygwth ffydd, gadewch i hyn eich hysbrydoli oherwydd amcan hyn oll, amcan yr Efengyl hon a phob Efengyl arall yw 'i chwi [ddod i gredu a dal i gredu] ac er mwyn i chwi trwy gredu gael bywyd yn ei enw ef'.

'Felly, ar ddiwedd ei efengyl mae Marc yn gorffen ei stori gyda pharchedig ofn y rhai a glywodd fod Iesu a groeshoeliwyd wedi ei gyfodi. Sôn am gomisiwn byd-eang yr Arglwydd a fyddai gyda'i bobl bob amser hyd ddiwedd amser y mae Mathew ar ddiwedd ei efengyl yntau. Ac mae Luc yn sôn am y fendith derfynol oddi wrth yr Arglwydd wrth iddo ymadael â nhw.

Ond mae Ioan, yn ei ffordd nodweddiadol, yn portreadu'n rymus y modd y byddai'r Crist byw yn ffeindio'i ddisgyblion ynghanol eu bywyd bob dydd (yn pysgota!) yn y byd seciwlar. Yno, byddai ef yn eu grymuso i gwblhau ei genhadaeth fyd-eang, drwy aberth a choncwest y groes. Byddai'r byd yn golled ac yn fethiant, ond i gwmni'r disgyblion ar hyd yr oesau ac i gymuned ffydd byddai'n arddangos gogoniant y Duw tragwyddol … Ac fe ddysgant: hyd yn oed os byddant hwy'n anffyddlon ac yn troi cefn arno, bydd ef o hyd ac o hyd yn dal i ddod atynt a'u galw yn ôl i'w wasanaeth.' (John Marsh, *The Gospel of St John*)

Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi,
Tydi yw 'ngrym:
Pa les ymdrechu, f'Arglwydd, hebot ti,
A minnau'n ddim?
O! rymus un, na wybu lwfrhau,
Dy nerth a'm ceidw innau heb lesgáu.
*George Rees*

*Noel Davies*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru